*Cynhaliodd y Cyngor gyfarfod rhithwir am 7pm ar 7 Mehefin 2021 yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.*

---

**Presennol:** Cadeirydd: y Cyng Iwan Davies. Cynghr Steve Kings Hywel Davies, Amanda Edwards, Garethe Eltawab, Nicky Redmond, Ken Symmons, Claire Proven

CS Clive Davies
Clerc

Aelodau'r cyhoedd /y wasg: Dim

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Dim.

**2. Datgan Diddordeb ar faterion sy'n codi o'r Agenda**
Dim.

**3. Cadarnhau trefn yr Agenda** a nodi unrhyw eitemau y gellid eu datrys ar gyfer sesiwn gyfrinachol Cytunwyd i gynnwys Materion yn Codi ac UFA ar yr agenda. Ni chafodd y cynnig ei eilio.

**4. Cadarnhau Cofnodion 05-05-21**

| Cynigiwyd derbyn y cofnodion fel cofnod cywir. | Eiliwyd | |
|---|---|---|
| Cyng S Kings | Cyng G Eltawab | Cytunwyd |

**5. Ceisiadau Cynllunio**

Ni chafodd dim ei gario ymlaen.
Mae dogfennau cynllunio i'w gweld yn https://www.ceredigion.gov.uk/resident/planning-building-control-and-sustainable-drainage-body-sab/planning-building-control/

*Gorfodi Cynllunio*
Nid oedd y Cynghorydd Sirol na'r Clerc wedi cael unrhyw ohebiaeth gan CSC ynglŷn â Greenacre, Llangoedmor.

| PENDERFYNWYD/GWEITHREDU | GAN |
|---|---|
| Holi CSC | Cynghorydd Sirol |

*Diweddariad LDP2*
Dywedodd y CS Clive Davies ei fod wedi gofyn am gael siarad â Chynllunio'r Dyfodol ac wedi cael ar ddeall fod tir ar werth o fewn Llechryd yn Lôn Helyg lle'r oedd caniatâd cynllunio amlinellol wedi'i roi ar gyfer datblygiad preswyl chwe

annedd ar ran o'r safle, a chredid bod y caniatâd cynllunio hwnnw wedi dod i ben. Roedd manylion y gwerthiant yn dweud y gellid cynnwys hyd at 58 o anheddau ar y safle o gael caniatâd cynllunio.

**6. Adroddiad y Cynghorydd Sirol**

Dywedodd y CS Clive Davies, er bod llythyr gorfodi wedi ei anfon at y tirfeddiannwr yng Nghoedmor ynglŷn â'r ffens wrth ymyl y briffordd, byddai rhywfaint yn parhau gan nad oedd yn groes i gyfraith cynllunio. Dywedodd y byddai'r B4570 Treforgan, Llangoedmor yn dal ar gau am rai misoedd ac roedd yn gweithio gyda CSC a'r heddlu i fynd i'r afael â phryderon y preswylydd. Dywedwyd nad oedd yr arwyddion cau wrth nesáu o gyfeiriad Lôn y Ladi i'w gweld yn hawdd. Gobeithid y gallai o leiaf hanner lled y ffordd, gyda goleuadau rheoleiddio, fod ar agor yn ystod yr haf. Doedd Llechryd eto ddim wedi cofrestru digon o bobl â diddordeb i fod yn gymwys i gael band eang cyflym iawn. Roedd darpariaeth ffonau symudol mewn ardaloedd ar yr arfordir i gael ei wella drwy ddarparu 4g. Ni fyddai Openreach yn newid gwasanaethau i ffonau tir brys lle na fyddai signal ffôn symudol. Roedd yn pwyso am gael cyfarfod â CNC ynglŷn ag ymchwilio i amddiffynfeydd rhag llifogydd yn Nyffryn Teifi a gobeithiai y byddai Ben Lake AS ac Elin Jones AC yn bresennol. Roedd y Grŵp Gwytnwch wedi cwrdd ac roedd materion i helpu'r gymuned yn ystod llifogydd a digwyddiadau lleol eraill yn symud ymlaen.

**7. Cyllid a Gweinyddu**

**7.1 Taliadau Misol**

*7.1.1 Cymeradwyo cyfrifon sy'n daladwy*

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Davies | Cyflog gan gynnwys HMRC | 315.25 | |
| S Davies | SG 25, inc 102.22, ffôn 5 | 132.22 | |
| S Davies | Cyfanswm taliad | 447.47 | |
| PK Windows | Tynnu ffenestr allan yn Eglwys y Groes Sanctaidd | 60.00 | |
| HMRC | | 78.80 | |
| | | | |
| Danfo | Glanhau'r bloc toiledau a chlirio sbwriel | | Caiff ei ychwanegu fel taliad ar wahân |

| Cynigiwyd | Eiliwyd | |
|---|---|---|
| Cyng N Redmond | Cyng A Edwards | Cytunwyd |

*Taliadau Ar-lein*

Roedd pawb a oedd i lofnodi ar-lein yn hyderus wrth ddefnyddio'r system. Nodwyd bob taliadau heb eu gwneud ers mis Ebrill. Cytunodd y Cyng K Symmons i'w hawdurdodi ymhen dau ddiwrnod ar ôl y cyfarfod. Byddai'r Cadeirydd yn creu rhestr ar gyfer awdurdodi cyfrifon i gyfeirio ati yn y dyfodol. Cadarnhawyd y dalai rhifau pin a chyfrineiriau gael eu gweld a'u defnyddio dim ond gan y sawl roedd y banc wedi eu haseinio iddynt.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | GAN |
|---|---|
| Awdurdodi taliadau Ebrill ymhen dau ddiwrnod ar ôl y cyfarfod | Cyng K Symmons |

*7.1.1.2 Cymhwysiad y BANC / Cyfrif Cadw ar wahân i fanc Lloyds*

Nodwyd cymhwysiad y banc. Cytunwyd, oherwydd lefelau'r arian yn y cyfrif Lloyds, y dylai'r Cyngor chwilio am fanc arall i agor cyfrif cadw ynddo.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | GAN |
|---|---|
| Chwilio am wybodaeth am gyfrif cadw gwahanol | Clerc |

*7.1.2 Achosion o Covid yn y gymuned*

Nid oedd dim wedi'i gario ymlaen.

*7.1.3 Archwiliad Mewnol / Diwedd Blwyddyn*

Dywedwyd, os nad oedd mynediad i'r adroddiadau elusennol, y byddai'r archwilydd mewnol yn llunio'r archwiliad Mewnol ar y sail nad oedd y Cyngor wedi cydymffurfio â chyfrifoldebau'r Ymddiriedolaeth. Disgwyliai'r Clerc i hynny olygu archwiliad cymwysedig. Pe bai adroddiad y banc ar gyfer cyfrif yr Elusen ar gael; ac yn cael ei anfon at yr

*Llofnod y Cadeirydd:* *Dyddiedig:*

archwilydd mewnol, yna byddai angen galw cyfarfod cyffredinol ychwanegol cyn 30 Mehefin 2020 i gadarnhau'r cyfrifon.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | GAN |
|---|---|
| Ymweld â'r banc i gael adroddiad cyn gynted â phosibl. Darparu'r adroddiad i'r Cadeirydd i'w anfon at y Clerc. | Cyng H Davies |

*7.1.4 Cyfarfodydd y dyfodol*
Ar ôl cael gwybodaeth gan Neuadd y Cwrwgl a'r wybodaeth ddiweddaraf oddi wrth Un Llais Cymru, cytunwyd i gynnal cyfarfod mis Gorffennaf drwy gyfrwng ZOOm.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | GAN |
|---|---|
| Trefnu cyfarfod ZOOM ym mis Gorffennaf | Clerc |

*7.1.5 Gwaith cyfreithiol – Ffin y man chwarae a'r parc ceir*
Dywedwyd bod pwyso nawr ar y cyfreithwyr am y wybodaeth ddiweddaraf.

*7.1.7 Baner*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | GAN |
|---|---|
| Archebu baner 2 lathen gydag ymylon nad ydynt yn rhaflo oddi wrth Flagpole Express | Clerc |

*7.1.8 Goleuadau'r Nadolig*
Dywedwyd bod 3 chontractiwr wedi cael eu holi ac y byddai ymweliadau safle'n cael eu trefnu.

*7.1.9 Cyflwyno Grant i Glwb Pêl-droed Llechryd*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | GAN |
|---|---|
| Trefnu dyddiad addas i bawb, ar ôl siarad â'r Clwb | Cadeirydd |

**8. Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
*8.1 Croes-y-Llan – y diweddaraf a chytuno ar unrhyw weithredu*
Nid oedd ymateb wedi dod hyd yma oddi wrth Elin Jones AC am y cymorth roedd wedi'i gynnig ym mater y cyflymdra rhwng Aberteifi a Llechryd.
Roedd CSC yn dal heb roi'r diweddaraf am faterion priffyrdd eraill.

*8.2 Llwybrau Troed*
Nodwyd bod COVID yn dal i achosi oedi i waith ar lwybrau troed gan CSC.

*8.2.1 Llwybrau troed*
*8.2.1 Y diweddaraf am y cynnydd gyda'r map cerdded*
Roedd y Cyng S Kings yn falch gallu dweud bod yr arian ar gyfer y canllaw cerdded lleol wedi ei gadarnhau gan y Cerddwyr a bod arian ar gael tan 2922. Roedd y Cyngr A Edwards ac N Redmond yn helpu archwilio a nodi unrhyw broblemau ar y llwybrau. Roedd problemau gydag o leiaf ddau o'r llwybrau a oedd yn cael eu hawgrymu ar gyfer y canllaw, a hyn yn cael ei drafod gyda CSC.

*8.2.2 Cofrestru llwybrau ar y Map Diffiniol – 11 Datganiad Tystiolaeth wedi dod i law. Mae angen archwilio bob un a sicrhau bod yr amserlen gyfan yn cael ei chynnwys.*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | GAN |
|---|---|
| Archwilio pob datganiad, yn enwedig i sicrhau bod yr amserlen briodol yn cael ei harchwilio | Cyng S Kings |

*8.3 Y Bont / Afon yn Llechryd – Nodi'r sefyllfa bresennol a chytuno ar unrhyw gamau pellach*
Roedd CNC yn ymwybodol o'r sbwriel o gwmpas y bont. Gofynnwyd a allai'r modelu'r afon ar gyfer llifogydd gael ei ddarparu, gan fod hynny'n helpu yn y ddadl am dreillio/dim treillio a hefyd amserlen ar gyfer clirio prennau a choed ar lan yr afon.

*Llofnod y Cadeirydd:* *Dyddiedig:*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | GAN |
|---|---|
| Cysylltu â CNC | CS C Davies |

*8.4 Diweddariad am B4570 Treforgan, Llangoedmor – Cau'r Ffordd*
Nodwyd yn adroddiad y Cynghorydd Sirol.

*8.5 Parcio wrth yr Ysgol ac o Gwmpas*
Nodwyd pryderon y Pennaeth a thrigolion lleol am y parcio wrth yr ysgol a gerllaw yn ystod adegau dod â'r plant a'u casglu.. Cytunwyd o ystyried nifer y disgyblion yn yr ysgol y dylid ymchwilio i ddarpariaeth parcio mwy diogel, a byddai'r CS yn codi mater y cyfyngiad 20mya eto.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | GAN |
|---|---|
| Cysylltu ag Aelod Cabinet Addysg CSC | Clerc |

**9. Amwynderau**
**9.1 Bloc Toiledau**
*9.1.1* Roedd dyfynbrisiau wedi'u gwahodd am archwiliadau trydan

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | GAN |
|---|---|
| Creu manylion ar gyfer addurno'r bloc a symud ymlaen â dyfynbrisiau am yr archwiliadau trydan. | Y Clerc gyda chymorth priodol |

***9.2 Man/Cae Chwarae – pob penderfyniad yn amodol ar ei gymeradwyo gan* Gymdeithas Cae Chwarae Llechryd**
*9.1 Man chwarae*
9.2.1 *Archwilio'r gwaith* heb ei wneud o'r archwiliad ROSPA - nodwyd
Angori pystion y gôl yn y ddaear
Trwsio ffin y man chwarae
Adnewyddu'r bin yn y man chwarae - y Cyng S Kings i weld a oedd yn bosibl
Gât yn cau ohoni ei hun i'r man chwarae – Cyng H Davies
Angen tocio llwyn ar y cornel a'r clawdd wrth ymyl yn sylweddol iawn. Roedd contractiwr yn trefnu ymweliad safle â'r man chwarae a'r Eglwys
Ailosod y fainc bicnic gyfleus pan fydd y llwybr concrid wedi'i drwsio.
Mainc bicnic y plant yn cael ei storio. Ei gosod yn ei lle pan fydd concrid wedi'i roi ar y llwybr.

*Gât fynedfa o Faesyderi a mynediad i Neuadd y Cwrwgl*
Ar oll cael adroddiad y Clerc, dywedodd y Cyng H Davies ei fod wedi gofyn i gontractiwr lleol fesur y gatiau.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | GAN |
|---|---|
| Eitem agenda, cyfarfod mis Mehefin | Clerc |

*9.2.2 Adnewyddu'r man concrid / trwsio'r llwybr.*
It was noted that the work was to take place in June.

*9.2.3 Play area inspections RoSPA*
Roedd yr archwiliad wedi'i drefnu ar gyfer mis Mehefin.

*9.2.4 Baw Cŵn*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | GAN |
|---|---|
| Llunio baner yn dangos peryglon yn gysylltiedig â baw cŵn | Cyng A Edwards |
| Cost baner. | Clerc |

***9.3 Parc Ceir – Neuadd y Cwrwgl***
Roedd y Clerc wedi dod o hyd i gwmni i roi dyfynbris a darparu gwybodaeth am bwynt gwefru ceir trydan. Nodwyd, er mai dim ond grŵp oedd yn defnyddio'r neuadd, fod y parc ceir bob amser yn brysur. Diolchwyd i'r Cyng H Davies a'i

*Llofnod y Cadeirydd:* *Dyddiedig:*

wraig am dwtio o gwmpas y parc ceir a'r neuadd.

***9.4 Eglwys y Groes Sanctaidd, Llechryd***

*9.4.1 Diweddariad am yr hawliadau yswiriant*

Roedd yr ardal nawr wedi'i glanhau'n broffesiynol a gellid gwahodd contractwyr ar y safle. Dywedwyd bod contractwyr wedi eu gwahodd i roi dyfynbris am y gwaith trydan. Roedd contractwyr yn dal i gael eu henwi ar gyfer y gwaith ar y llwybrau a'r grisiau. Nid oedd dim gwybodaeth bellach am yr ymchwiliad gan y cymhwyswyr colled i'r posibilrwydd fod y tir wedi suddo. O gofio bod unrhyw arolygon a wneir gan gymhwyswyr colled yn benodol iawn, byddai'r Cyngor yn dal i fynd ymlaen gyda'i arolygon ei hun. Roedd angen o hyd am gostau'r gwaith coed..

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | GAN |
|---|---|
| Holi am ddyfynbrisiau<br>Cysylltu â meddygon coed<br>Trefnu arolwg<br>Pwyso ar yr yswirwyr / cymhwyswyr colled | Clerc |

*9.4.2 Tynnu ffenestr allan*

Roedd y ffenestr wedi'i thynnu allan, ond gwelwyd ei bod mewn cyflwr gwael iawn ac felly roedd wedi'i thaflu i ffwrdd.

*9.4.3 Prydles*

Esboniwyd, hyd yn oed pe bae'r Eglwys yng Nghymru yn cytuno i'r brydles gael ei thor, gallai'r Cyngor ddal i wynebu'r costau o wella cyflwr yr adeilad i gyflwr derbyniol neu dalu swm am i waith felly gael ei wneud. Cytunwyd bod yr ardal yn ased gymunedol sy'n cael ei defnyddio fel lle i fyfyrio a chofio. Nodwyd bod y fynwent yn dal 'ar agor' a byddid yn holi ynglŷn â chyfrifoldeb am y cofebau.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | GAN |
|---|---|
| Parhau'r brydles nes byddai arolwg safle llawn wedi'i wneud, a bod y gwaith angenrheidiol i sicrhau bod y safle mewn cyflwr da wedi'i nodi. Wedyn byddai'r mater yn cael ei adolygu. | |
| Trefnu arolwg | Clerc |

***9.5 Adeilad y Mileniwm***

Roeddem yn cadw llygad ar arwynebau o gwmpas yr adeilad i sicrhau eu bod yn dal mewn cyflwr.

***9.6 Mainc goffa neu le i'r trigolion***

Roedd cysylltiad wedi bod â'r gymdeithas tai.

***9.7 Cais am ddarparu lleiniau garddio***

Roedd y nifer gofynnol i'r Cyngor edrych ar ddarparu lleiniau garddio wedi ei gyrraedd. Cytunwyd mai nodi safleoedd addas fyddai'r tasg gyntaf.  Ni ddylai deiliaid tir deimlo dan unrhyw bwysau neu gael eu dychryd i ddarparu./gynnig tir. Nid oedd amserlen statudol i'r Cyngor gwbhau'r dasg

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | GAN |
|---|---|
| Ystyried a nodi safleoedd posibl | Cynghorwyr |

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | GAN |
|---|---|
| Paratoi adroddiad i'r wasg am hyn ac eitemau eraill o'r cyfarfod | Cyng G Eltawab |

***9.8 Arosfannau bws***

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | GAN |
|---|---|
| Derbyn y dyfynbris gan Danfo i lanhau'r bloc arosfannau bws bob mis a diheintio'r cysgodfannau eraill yn Llechryd bob chwarter. | |

*Llofnod y Cadeirydd:* *Dyddiedig:*

| | |
|---|---|
| Cysylltu â Danfo | Clerc |

**10. Digwyddiadau**
*10.1 Diwrnod Gofalwyr y GIG*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | GAN |
|---|---|
| Archebu bane | Clerc |

*10.2 Sul y Cofio*
Nodwyd y gallai cyfyngiadau COVID ddal i effeithio ar unrhyw ddigwyddiad.

**11. Adroddiadau cyfarfodydd**
Derbyn unrhyw adroddiadau
11.1 Cyng I Davies – Llywodraethwyr yr Ysgol – dim byd wedi'i gario ymlaen gan nad oedd cyfarfod wedi bod.
11.2 Cyng A Edwards - Neuadd y Cwrwgl - Dywedwyd bod y Pwyllgor yn gweithio'n galed i alluogi'r neuadd i ailagor yn ddiogel. Diolchwyd am y gwaith a wneir gan y Cyng H Davies a'i wraig i sicrhau bod y neuadd yn cael ei chadw mewn cyflwr da yn ystod y cyfnod clo.
11.3 PACT – Cyfarfod nesaf 17 Mehefin 2021.
11.4 – Wedi'i ddiweddaru yn adroddiad y Cynghorydd Sirol
11.5 Mynd o Gwmpas Llechryd a Llangoedmor - Cyng G Eltawab - Roedd y grŵp yn dal i sefydlu ei hun gyda chyfarfodydd o'r cydlynwyr bob wythnos. Roedd 120 o bobl allan o ryw 600 wedi llofnodi ar gyfer yr ap cymunedol. Byddai gwaith pellach a chyhoeddusrwydd yn digwydd yn ystod yr haf yn ddibynnol ar gyfyngiadau COVID.

**12. Gohebiaeth (i gynnwys dogfennau ymgynghori heb eu cynnwys dan unrhyw bennawd arall)**

*Gohebiaeth a nodwyd*
Cynlluniau gan CNC i reoli basnau afonydd (2021 i 2027) ardaloedd basn afonydd Dyfrdwy a Gorllewin Cymru yn cau 22 Mehefin 2021.

Adeiladu dyfodol iachach yn dilyn COVID - 19: Dweud eich dweud

Ymgynghoriad: Pwerau awdurdodau lleol i fasnachu. Cau 11 Mehefin.

**13. Materion Personol Cyfnewid Gwybodaeth**
Nodwyd bod un Cynghorydd wedi mynd allan o'r fideo yn ystod y drafodaeth am fancio ar-lein. Dywedwyd nad oedd bwriad personol yn y pryderon a fynegwyd yn ystod y drafodaeth.

Nodwyd bod system ar waith nawr i rannu gwybodaeth sy'n berthnasol i'r Cyngor drwy e-bost y Cyngor os byddai unrhyw Gynghorydd yn dymuno gwneud hynny. Dywedwyd na ddylid rhannu e-byst y Cyngor gyda thrydydd partïon oni cheid gwybod ei bod yn briodol gwneud hynny.

**14. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 05-07-21**
Gellid galw cyfarfod eithriadol cyn y dyddiad hwn i gymeradwyo'r cyfrifon fod y dyddiad cau ar 30-06-21.

*Gan nad oedd dim busnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 9pm.*

*Llofnod y Cadeirydd:* *Dyddiedig:*